**Gwybodaeth am y Cyfweliad**
**BSc Gwaith Cymdeithasol**

Diolch am eich cais i astudio BSc Gwaith Cymdeithasol. Fel rhan o'n proses recriwtio, rydym yn gwahodd ymgeiswyr i ymgymryd â thasg ysgrifenedig ac i fynychu cyfweliad unigol ar ein Campws Llandaf (CF5 2YB). Ar ôl adolygu'ch cais, hoffem i chi fynychu cyfweliad.

A wnewch chi gyrraedd prif dderbynfa Campws Llandaf am 9.30yb.
Dyma'r agenda ar gyfer y diwrnod :

- Croeso a throsolwg o'r Rhaglen Gwaith Cymdeithasol ym Met Caerdydd

- Ymarfer ysgrifenedig 45 munud sy'n canolbwyntio ar God Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol. Darllenwch y ddogfen hon: https://socialcare.wales/cms-assets/documents/Code-of-Professional-Practice-for-Social-Care-web-version.pdf

- Cyfweliad unigol lle gofynnir i chi roi cyflwyniad 5 munud ar lafar yn esbonio eich dealltwriaeth

o rôl Gweithiwr Cymdeithasol, a chyfres o gwestiynau gan y panel cyfweld fydd yn cynnwys staff Academaidd a chynrychiolwyr ein Partneriaid.

Nid oes parcio ar gael ar y campws, felly, gwnewch yn siŵr eich bod yn cyrraedd mewn digon o amser. Bydd aelod o'r tîm gwaith cymdeithasol yn cwrdd â chi yn y dderbynfa ac yn mynd â chi i'r ystafell berthnasol.

Dylai unrhyw anghenion dysgu penodol gael eu nodi'n glir ymlaen llaw fel y gellir gwneud y trefniadau angenrheidiol. Os hoffech gael eich cyfweld drwy gyfrwng y Gymraeg, rhowch wybod i ni ymlaen llaw fel y gellir gwneud y trefniadau angenrheidiol.

Sicrhewch eich bod yn llenwi a dychwelyd y ffurflen Hunanddatgan drwy e-bost at socialwork@cardiffmet.ac.uk cyn eich cyfweliad.

Os ydych chi'n rhydd i fynychu ar y dyddiad a roddwyd i chi, a wnewch chi gadarnhau hyn drwy eich Hyb UCAS cyn gynted â phosibl. Byddwch yn cadarnhau lleoliad penodol yr ystafell ar gyfer eich asesiad ysgrifenedig a'ch cyfweliad wrth i chi gyrraedd. Os na allwch fynychu ac os hoffech ofyn am ddyddiad arall neu os oes gennych amgylchiadau eithriadol sy'n eich atal rhag mynychu cyfweliad yn y cnawd, anfonwch e-bost at askadmissions@cardiffmet.ac.uk neu ffoniwch ar 029 2041 6010. Yn anffodus, ni allwn ystyried ymgeiswyr sydd ddim yn mynychu cyfweliad.

Edrychwn ymlaen at gwrdd â chi.

Yn gywir

Y Tîm Gwaith Cymdeithasol